Busnes Cymdeithasol Cymru
Social Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UnLtd

SaadiaSpeaks

Mae Saadia Abubaker yn ysbrydoli pobl ifanc o gefndiroedd ethnig lleiafrifol i gyflawni eu nodau a magu hyder trwy weithdai, blogiau a phodlediadau rhyngweithiol.

Heriau

Magwyd Saadia yn Abertawe lle doedd dim llawer o amrywiaeth yn y gymuned ar y pryd. Roedd Saadia yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'w llais a bod yn hi ei hun oherwydd ei bod hi'n gyson edrych ac yn teimlo'n wahanol i'r rhai o'i chwmpas. Roedd profi hiliaeth a chael ei stereoteipio yn dal Saadia yn ôl rhag adeiladu'r dyfodol yr oedd hi ei eisiau iddi hi ei hun. Mae 49% o bobl ifanc yn teimlo'n bryderus am eu dyfodol bob dydd. Felly creodd Saadia ofod cefnogol i bobl ifanc wella eu hyder ac adeiladu eu dyheadau, rhywbeth yr oedd hi'n dymuno cael wrth dyfu i fyny.

Datrysiad

Dechreuodd Saadia helpu pobl ifanc ar Instagram trwy rannu ei stori a chreu podlediad yn dangos pobl ifanc sy'n medru creu newid. Aeth Saadia ymlaen i gynnig dosbarthiadau meistr grŵp ar-lein yn hyfforddi pobl ifanc i hybu eu hyder a'u hunan-ddealltwriaeth. Nawr mae Saadia yn cyflwyno gweithdai rhyngweithiol 'SaadiaSpeaks', gan ysbrydoli pobl ifanc a rhoi'r arfau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyheadau.

"Rwyf eisoes wedi argymell UnLtd i gymaint o'r bobl yn fy rhwydwaith."

Cymorth Busnes Cymdeithasol Cymru

- Arian i brofi syniadau Saadia.
- Cefnogaeth bersonol i ffurfio hunaniaeth brand Saadia.
- Cysylltiadau â chymuned o entrepreneuriaid cymdeithasol.

- ***Dysgwch fwy am gymorth Busnes Cymdeithasol Cymru sydd ar gael i entrepreneuriaid cymdeithasol sy'n byw yng Nghymru yma.***
- ***Dysgwch fwy am SaadiaSpeaks yma.***

Cyflawniadau

Mae pobl ifanc yn gadael gweithdai SaadiaSpeaks wedi'u hysbrydoli i gyflawni eu nodau a datgloi eu hyder mewnol, gan ennill gwell dealltwriaeth o bwy ydyn nhw. Maen nhw'n cael y dewrder i fod yn nhw eu hunain mewn gofod gyda phobl o ddiwylliannau a chefndiroedd tebyg nad ydyn nhw efallai'n rhyngweithio â nhw yn eu bywydau bob dydd.

Beth Nesaf?

Mae Saadia yn gobeithio cyrraedd 25,000 o bobl ifanc drwy weithdai 'SaadiaSpeaks'. Mae Saadia eisiau datblygu partneriaethau corfforaethol i dyfu ei gwaith ymhellach a byddai wrth ei bodd yn cynnal gŵyl lawn o weithdai yng Nghymru.

Yr hyn a ddysgwyd ganddi

Mae Saadia yn sylweddoli bod tyfu ei busnes yn gofyn am ddod yn gyfforddus wrth gael gafael ar gymorth gan arbenigwyr sydd â sgiliau nad oes ganddi. Trwy gynnig cyfleoedd i rwydwaith Saadia ei hun, mae hi'n cefnogi eraill wrth iddyn nhw ei chefnogi hi.